**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod y Y Bwrdd Pensiwn Lleol

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Gwener, 5 Ionawr 2018 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: I Guy (Cadeirydd) fu'n llywyddu

**Cynrychiolwyr Cyflogwyr:**
J Andrew - Cyfarwyddwr Cyllid Tai Tarian
Y Cynghorydd T M White - Dinas a Sir Abertawe

**Cynrychiolwyr Aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol:**
A Thomas - Dinas a Sir Abertawe

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Karen Cobb | Uwch-gyfrifydd |
| Jeffrey Dong | Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Stephanie Williams | Prif Gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): Y Cynghorydd A Lockyer Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Aelodau Cyfetholedig(wyr): A Chaves

---

27 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

**Aelodau'r Bwrdd:**

J Andrew – Yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

I Guy – Yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

A Thomas – Yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

Y Cynghorydd T M White - yr agenda yn ei chyfanrwydd - Aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

**Swyddogion:**
K Cobb – Yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

J Dong – Yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

J Parkhouse – Yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

S Williams – Yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

## 28 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Bwrdd Pensiwn Lleol a gynhaliwyd ar 28 Medi 2017 fel cofnod cywir.

## 29 Adroddiad am Doriadau.

Cyflwynodd Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn darparu manylion toriadau a gafwyd yn unol â'r polisi Adrodd am Doriadau.

Roedd Atodiad A yn darparu'r Adroddiad Toriadau a oedd yn cynnwys manylion y toriadau a gafwyd ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd Pensiwn Lleol ym mis Medi 2017. Tynnwyd sylw at fanylion y toriadau, y camau gweithredu a gymerwyd gan y Gronfa Bensiwn a newidiadau i bersonél yn y Tîm Pensiynau.

Dilynwyd hyn gan drafodaethau ynghylch sicrhau adnoddau digonol i'r Tîm Pensiynau; gosod taliadau cosb ar y rhai sy'n troseddu dro ar ôl tro; dilyn arfer gorau; cymharu â chronfeydd pensiwn eraill.

## 30 Partneriaeth Pensiwn Cymru - Y Diweddaraf am Gynnydd.

Cyflwynodd Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol adroddiad ‘er gwybodaeth’ a oedd yn rhoi'r diweddaraf i'r Bwrdd am gynnydd Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Rhoddwyd y diweddaraf i'r pwyllgor ynghylch y cyflwyniad mewn perthynas â'r 8 Cronfa Bensiwn yng Nghymru, a'r cynnydd o ran llywodraethu a chaffael, gan gynnwys gweithdrefn adrodd y Cyd-bwyllgor Llywodraethu.

Darparodd Atodiad 1 fanylion cyfuno Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Partneriaeth Cronfa Bensiwn Cymru: Adroddiad Cynnydd mis Hydref 2017.

Trafododd y bwrdd y costau gweinyddol a delir i Gyngor Sir Gâr am wasanaethau ysgrifenyddol; mwy o gostau yn erbyn llai o arbedion cyffredinol ar gyfer y prosiect; mwy o gostau oherwydd y cyngor cyfreithiol ychwanegol a gafwyd; gostyngiad yn ffïoedd rheolwyr cronfeydd; yr estyniad y mae ei angen ar gyfer yr amserlen; gwerth yr asedau a rennir a'r asedau y tu allan i'r gronfa.

## 31 Y Diweddaraf am y Strategaeth Weinyddol - Drafft.

Cyflwynodd Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn amlinellu'r fersiwn ddiweddaraf o Strategaeth Gweinyddu'r Gronfa Bensiwn.

Ychwanegwyd bod Strategaeth Gweinyddu'r Gronfa Bensiwn wedi'i mabwysiadu yn 2013 a'i bod wedi'i haddasu fesul cam yn y cyfamser. Roedd y Strategaeth Gweinyddu ddrafft wedi'i hatodi i Atodiad 1 i'w hystyried gan y Bwrdd Pensiwn Lleol, cyn i Bwyllgor y Gronfa Bensiwn ei mabwysiadu'n ffurfiol.

Dywedodd y bwrdd fod y ddogfennaeth ofynnol ar gael ar wefan y cyngor.

Dilynwyd hyn gan drafodaethau ynghylch cynnwys y strategaeth ddrafft a oedd yn cynnwys:

- adfer y gost o ganlyniad uniongyrchol i berfformiad gwael cyflogwr;
- camau gweithredu pan fydd toriadau difrifol;
- adnoddau yn y Tîm Pensiynau a'r newidiadau diweddar a gafwyd o ran personél;
- goblygiadau cyflwyno newidiadau Diogelu Data, rhannu data a sicrhau cydymffurfio;
- adroddiad am gyfrifoldebau a chosbau.
- Cydnabuwyd nad oedd y toriadau a nodwyd yn ddigon mawr i fod yn rhai pwysig.

**Penderfynwyd** darparu adroddiad maes o law am adnoddau'r Tîm Pensiwn.

## 32 Gwahardd y Cyhoedd.

Gofynnwyd i'r Bwrdd wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhelliad/ion yr adroddiad ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitem(au) f/busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Bwrdd Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 33 Partneriaeth Pensiwn Cymru - Argymhelliad i Benodi Gweithredwr Cynllun Cytundebol Awdurdodedig.

Cyflwynodd Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol adroddiad a oedd yn hysbysu'r bwrdd o argymhelliad Cyd-bwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru i benodi Gweithredwr y Cynllun Contractiol Awdurdodedig (CCA). Esboniwyd y broses benodi'n fanwl a nodwyd y penodiad.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

## 34 Credoau Buddsoddi.

Darparwyd adroddiad Hymans Robertson, Ymgynghorwyr Buddsoddi, 'er gwybodaeth'. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r camau nesaf a argymhellwyd mewn perthynas â datblygu a ffurfioli credoau pensiwn y Gronfa Bensiwn.

Yn Atodiad 1 darparwyd adroddiad am y credoau buddsoddi a grynhowyd o'r holiadur a'r diwrnod hyfforddiant.

Trafododd y bwrdd yr wybodaeth a gynhwyswyd yn yr adroddiad gan wneud sylw ar werthu asedau ac adolygu'r strategaeth yn flynyddol ar y cyd â Phwyllgor y Gronfa Bensiwn.

## 35 Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu.

Darparwyd adroddiad Hymans Robertson, Ymgynghorwyr Buddsoddi, 'er gwybodaeth'. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r camau nesaf a argymhellwyd mewn perthynas â pholisïau'r Gronfa Bensiwn ar faterion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu.

Atodwyd adroddiad cryno o'r camau nesaf yn Atodiad 1.

Trafododd y bwrdd y ffaith mai enillion ariannol yw blaenoriaeth y gronfa; mesur ffactorau ariannol/anariannol; cynrychiolaeth aelodau'r Gronfa Bensiwn ar y gronfa; ac nid gwerthu asedau oedd yr unig opsiwn. Caiff y polisi ei ailysgrifennu i gydnabod bod y gronfa'n cadw'r hawl i werthu asedau fel gweithred derfynol.

## 36 Cyfarfod Nesaf.

Gofynnwyd a ellid symud y cyfarfod nesaf a drefnwyd o 29 Mawrth 2018 i ddyddiad arall yn ystod yr wythnosau sy'n dechrau ar 23 a 30 Ebrill 2018.

**Penderfynwyd** y dylai'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd ddosbarthu dyddiadau amgen i'r bwrdd er mwyn cael cytundeb.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.45 am

**Cadeirydd**